# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) yng Nghymru

# Gwella Dysgu drwy Ystyried Safbwyntiau Dysgwyr


Gan Sue Lyle a David Hendley, Prifysgol Fetropolitan Abertawe;
Jim Newcomb, Prifysgol Cymru, Casnewydd

Mae cyfranogiad disgyblion yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), ac mae wrth wraidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae wyth prosiect ymchwil y TLRP (www.tlrp.org.uk) yn berthnasol er mwyn deall llais y dysgwr. Mae tair thema fras wedi dod i'r amlwg: Manteision i'r Dysgwr, Athrawon ac Ysgolion, Dilysrwydd wrth Ymgynghori â Disgyblion a Goblygiadau a Chyfyngiadau Llais y Dysgwr.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Llywodraeth Cynulliad Cymru | Awdurdod Lleol | Ysgol | Ystafell Ddosbarth




| Manteision i'r dysgwr, athrawon ac ysgolion | Syniadau allweddol<br>Pan gymerir llais y dysgwr o ddifrif: | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol) |
|---|---|---|
| Dysgwyr | Teimlo'n fwy cadarnhaol am yr ysgol.<br>Teimlo'n well amdanyn nhw eu hunain.<br>Bod ag ymdeimlad cryfach ohonyn nhw eu hunain fel dysgwyr.<br>Yn fodlon cyfrannu at faterion yr ysgol. | Mae angen i addysgu a dysgu fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel i bob un o'r disgyblion fel y gallan nhw gyrraedd eu potensial llawn.<br><br>Bydd cwricwlwm diddorol yn cymell disgyblion yn bersonol.<br><br>Mae angen systemau i ategu lles dysgwyr a'u helpu i gymryd rhan lawn mewn dysgu ac ym mywyd eu cymunedau.<br><br>Mae angen sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgwyr er mwyn dod yn ddinasyddion gweithredol mewn cymhwyster economaidd, cymdeithasol a phersonol, fel dysgwyr gydol oes. |
| Athrawon | Deall galluoedd dysgwyr yn well.<br>Gallu gweld pethau cyfarwydd o safbwynt gwahanol.<br>Meddu ar agenda ymarferol ar gyfer gwella.<br>Datblygu ymdeimlad newydd o gyffro wrth addysgu. | |
| Ysgolion | Meddu ar agenda ymarferol ar gyfer newid y gall dysgwyr uniaethu â hi.<br><br>Annog disgyblion i ymgysylltu'n fwy â'r ysgol.<br><br>Annog cydberthnasau sy'n seiliedig ar bartneriaeth ag athrawon.<br><br>Datblygu sail gadarn ar gyfer datblygu arferion democrataidd.<br><br>Creu dull hunanwerthuso cynhwysol. Datblygu gallu'r ysgol fel sefydliad dysgu. | |

| Dilysrwydd wrth ymgynghori â disgyblion | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion |
|---|---|---|
| Rhyngweithio ymddiddanol pwrpasol/ystyrlon<br><br>Yr angen am ymchwil gan athrawon ac am i ddysgwyr fod yn gyd-ymchwilwyr<br><br>Angen am ddatblygiad proffesiynol athrawon mewn perthynas â 'gwerthfawrogi llais y dysgwr' | Bydd newid mewn diwylliant ysgol yn cynnwys:<br>• yr angen i athrawon fod yn barod i annog, derbyn a gwerthfawrogi llais y dysgwr<br>• ymgynghoriadau ar faterion gwirioneddol a phwysig<br>• prosesau agored, cynhwysol a democrataidd<br>• rhannu canlyniadau'r ymgynghoriadau â'r dysgwyr<br>• caiff pob dysgwr ei werthfawrogi ac ymgynghorir â phob dysgwr, waeth beth fo'i ryw, ei ethnigrwydd neu ei ddosbarth. | Mae angen i ni weld disgyblion mewn ffordd wahanol ac ailasesu eu galluoedd.<br>Mae angen i ni adolygu a newid agweddau ar drefniadaeth, cydberthnasau ac arferion ysgolion i fyfyrio ar yr hyn y gall pobl ifanc ei gyflawni.<br><br>Dylai pob dysgwr chwarae rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau.<br><br>Dylai pob dysgwr chwarae rhan weithredol mewn gwaith ymchwil. |

| Cyfyngiadau Llais y Dysgwr | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion |
|---|---|---|
| Goblygiadau mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | Mae UNCRC yn golygu cydnabod gweithredu a gallu plant i wneud dewisiadau yn eu bywydau. Mae'n codi nifer o gwestiynau allweddol:<br>• beth yw plentyn/person ifanc/oedolyn?<br>• beth mae bod yn blentyn/person ifanc/oedolyn yn ei olygu?<br>• sut mae oedolion yn gwrando ar leisiau plant/pobl ifanc?<br>• beth mae parchu barn plant/pobl ifanc yn ei olygu?<br>• pa ddyfarniadau a phenderfyniadau y gall plant/pobl ifanc eu gwneud drostyn nhw eu hunain ac ar gyfer/gydag eraill? | Mae goblygiadau i Hawliau Dysgwyr o ran arferion ysgolion. Pan fydd ysgolion yn cymryd barn dysgwyr o ddifrif, mae'n arwain at newid mewn Cydberthnasau Dysgwyr, a all hybu Hunaniaeth Dysgwyr yn gadarnhaol, sydd yn ei dro yn arwain at Weithredu gan Ddysgwyr, lle y bydd dysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn y broses o gynllunio a rheoli eu hamgylchedd dysgu, gan roi rhan benodol iddynt ei chwarae yn y broses ddysgu a'i chanlyniadau.<br><br>Mae angen meddwl yn arloesol ac arfer arloesol ar bob lefel er mwyn i gyfranogiad disgyblion ddod yn rhan annatod o arfer.<br><br>Mae angen 'meddylfryd systemau' mewn ystafelloedd dosbarth, ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Natur ragnodol y cwricwlwm/agenda berfformiadol | Gall athrawon wynebu cyfyngiadau wrth weithredu llais y dysgwr, e.e. bodloni darpariaeth y cwricwlwm, pennu targedau, arolygu. | |
| Ffocws ar faterion grwpiau elitaidd/allgáu | Cynghorir ysgolion i:<br>• wrando ar y lleisiau tawel yn yr ysgol<br>• osgoi creu grŵp o ddisgyblion elitaidd. | |

## Tystiolaeth y TLRP

ACTS (Ysgogi Sgiliau Meddwl Plant) II: Ystafelloedd Dosbarth Meddwl yn Gynaliadwy
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html
Bywydau Dysgu: Dysgu, Hunaniaeth a Gweithredu yn ystod Bywyd
www.tlrp.org/proj/phase111/biesta.htm
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html
Cefnogi Gwaith Grŵp yn Ysgolion yr Alban: Oedran a Rhaniad Trefol/Gwledig
www.tlrp.org/proj/phase111/Scot_extb.html
www.tlrp.org/proj/leitch.html
Dysgu Sut i Ddysgu, mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html
Gwella Effeithiolrwydd Grwpiau Disgyblion mewn Ystafelloedd Dosbarth (SPRinG)
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2a.html
'Pwysigrwydd Hanesyddol, Gwleidyddol ac Addysgol Llais y Disgybl'
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1esept.html
Ymgynghori â Disgyblion ar Asesu eu Dysgu (CPAL) www.tlrp.org/proj/leitch.html
'Ymgynghori â Disgyblion ynghylch Addysgu a Dysgu' www.tlrp.org/proj/phase1/phase1dsept.html
Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru / Welsh Education Research Network
T·L·R·P Teaching & Learning Research Programme
E·S·R·C Economic & Social Research Council
Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh Assembly Government